# Cyflwyniad i'r Gwasanaeth Archwilio Meddygol gan Brif Swyddog Meddygol Cymru

GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau Shared Services Partnership

Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau trefniadau i gyflwyno archwilwyr meddygol drwy broses dau gam. Caiff trefniant archwilwyr meddygol anstatudol ei gyflwyno i ddechrau, a hynny o fis Ebrill 2019 yng Nghymru a Lloegr. At ei gilydd, bydd swyddfeydd yr Archwilwyr Meddygol yn cael eu cynnal gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yng Nghymru a sefydliadau darparu acíwt y GIG yn Lloegr.

Bydd y trefniant archwilwyr meddygol anstatudol yn golygu y bydd y broses gyfredol ar gyfer ardystio marwolaeth yn cyd-redeg â'r system archwilydd meddygol. Bydd archwilwyr meddygol sydd wedi cael hyfforddiant penodol, a'u staff, yn gweithio'n unol â'r safonau a'r canllawiau a bennwyd gan Archwilydd Meddygol Cenedlaethol Cymru a Lloegr, a fydd yn darparu arweinyddiaeth broffesiynol a strategol.

Disgwylir y bydd y broses o gyflwyno'r gwasanaeth yn dechrau mewn ysbytai acíwt, ond mae gwaith yn mynd rhagddo i alluogi archwilwyr meddygol i graffu ar bob marwolaeth nad yw'n destun ymchwiliad gan grwner, gan gynnwys marwolaethau yn y gymuned.

Hyd nes y caiff y ddeddfwriaeth ofynnol ei chyflwyno, mae Llywodraeth y DU wedi cytuno y caiff costau rhedeg y system eu hariannu drwy gyfuniad o'r ffi gyfredol a delir am Dystysgrif Feddygol Gadarnhaol ar gyfer Amlosgi (Ffurflen Amlosgi 5) a chyllid atodol gan y llywodraeth. Bydd yr Archwilwyr Meddygol yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gadarnhau Ffurflen Amlosgi 5.

Comisiynwyd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, drwy Bwyllgor y Bartneriaeth (sy'n cynnwys cynrychiolwyr Gweithredol o bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru), i arwain y gwaith o roi'r trefniadau newydd ar waith, a bydd yn gyfrifol am ddatblygu model gwasanaeth ar gyfer GIG Cymru. Bydd hyn yn cyflwyno haenen ychwanegol o annibyniaeth i rôl archwilwyr meddygol yng Nghymru.

Gan efelychu'r trefniadau yn Lloegr, bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru hefyd yn mynd ati yn fuan i recriwtio Archwilydd Meddygol Arweiniol a Swyddog Archwilio Meddygol i Gymru, er mwyn darparu llinell atebolrwydd proffesiynol ar wahân. Yna, bydd yn mynd ati i recriwtio Archwilwyr Meddygol Arweiniol a Swyddogion Archwilio Meddygol i weithio mewn ysbytai lleol.

Coleg Brenhinol y Patholegwyr fydd y coleg arweiniol ar gyfer archwilwyr meddygol, ynghyd â'r prif gyswllt ar gyfer gwybodaeth am y broses o ddatblygu'r gwasanaeth archwilwyr meddygol, ac ef hefyd fydd yn cynnal y rhaglenni hyfforddi gofynnol.

I gael yr holl wybodaeth am y trefniadau arfaethedig ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth, disgrifiadau swydd enghreifftiol, hyfforddiant cyn penodi a gwybodaeth am bwy all wneud cais i fod yn archwilydd meddygol neu'n swyddog archwilio meddygol, cliciwch ar y ddolen isod i wefan Coleg Brenhinol y Patholegwyr.

Mae'r digwyddiadau hyfforddi wyneb yn wyneb a gynhelir gan Goleg Brenhinol y Patholegwyr bellach ar agor ar gyfer ceisiadau ar y wefan. Rhaid i'r 26 o e-fodiwlau craidd gael eu cwblhau cyn ymgymryd â'r hyfforddiant wyneb yn wyneb.

*Prif Swyddog Meddygol Cymru*
*Diweddariad 95, Ebrill 2019*